# SUT I WNEUD CAIS AM DBS DRWY'R PANEL

## Rhan 1: Llenwch y ffurflen gais: Dewiswch lwybr A (ar-lein) neu B (papur)

**A > AR-LEIN** Cwblhewch **JotForm 1** i ddechrau'r broses. Nid hyn yw eich Ffurflen gais DBS - ond mae'n rhoi'r wybodaeth angenrheidiol i'r Panel er mwyn sicrhau bod y rôl yn gymwys i gael gwiriad DBS a phenderfynu pa lefel sydd ei hangen. Ar ôl cwblhau Jotform1, byddwch yn derbyn e-bost gyda dolen/ cyfrinair er mwyn cwblhau eich ffurflen gais DBS ar-lein. Gwnewch hyn yn brydlon os gwelwch yn dda. Byddwch yn derbyn e-bost atgoffa bob 5 diwrnod hyd nes y bydd y broses wedi'i chwblhau.

**B > FFURFLEN DBS PAPUR** **Cysylltwch â ni** neu anfon **e-bost** i archebu ffurflenni. Mi fydd y ffurflen gais bapur DBS yn cael ei hanfon i'ch cyfeiriad post neu at y cyswllt diogelu / ysgrifennydd yr eglwys. Cwblhewch y ffurflen mewn inc du a threfnwch gwrdd â gwiriwr y Panel yn brydlon.

## Rhan 2: Gwirio hunaniaeth

Mae hyn yn rhan ofynnol o bob gwiriad DBS. Mae dwy ffordd o wneud hyn:

**1>WYNEB YN WYNEB** Yn unol â chod ymddygiad DBS, bydd angen i bob ymgeisydd gadarnhau eu hunaniaeth drwy ddangos o leiaf 3 dogfen wreiddiol fel pasbort, trwydded yrru, bil cyfleustodau ac ati. cliciwch **yma am** restr o ddogfennau adnabod derbyniol neu ewch i wefan y DBS
Mae rhestr o'n gwirwyr gwirfoddol ar gael gan y Panel. Mae llawer o weinidogion a staff wedi'u hyfforddi i gyflawni'r rôl hon felly gofynnwch yn eich eglwys leol yn gyntaf. Os ydych wedi cwblhau **JotForm 1** ac wedi cwblhau eich cais DBS ar-lein, dylai'r gwiriwr gwblhau **Ffurflen 2 (word doc)** neu Ffurflen 2 PDF i fewnbynnu manylion y dogfennau adnabod a welwyd. Os ydych wedi cwblhau ffurflen gais DBS papur pinc, dylai'r gwiriwr gwblhau FFURFLEN GWIRIO Y PANEL gan nodi'r dogfennau a welwyd a rhywfaint o wybodaeth am y rôl dan sylw.

**2> GWIRIO I.D. YN DDIGIDOL AR LEIN** (am ffi ychwanegol o £5.40)
I ddilyn y llwybr hwn, bydd angen pasbort dilys gyda micro chip neu drwydded yrru ddiweddar. Dylech nodi ar y Jotform 1 mai dyma'ch dewis a'ch bod yn cytuno i dalu'r ffi.

Ar ôl cwblhau eich cais DBS ar-lein byddwch yn derbyn gwahoddiad e-bost i gwblhau'r broses wirio gan ddefnyddio'r camera ar eich ffôn clyfar.

## Rhan 3: Derbyn eich tystysgrif DBS

Byddwch yn derbyn tystysgrif DBS gan y DBS ar ddiwedd y ddau lwybr.

**NID OES ANGEN** i'**r rhai sy'n dewis llwybr A** – electronig anfon eu tystysgrif bapur i'r swyddfa oni bai ein bod yn gofyn am hyn, ond dylech ddangos eich tystysgrif i'ch cydlynydd diogelu lleol. Ni ddylai'r eglwys gadw unrhyw dystysgrifau DBS na gwneud copïau.
**RHAID** i ymgeiswyr sy'n dewis **papur / post llwybr B** anfon y dystysgrif wreiddiol i swyddfa'r Panel. Gallwch ddefnyddio'r amlen a ddarperir ond gwnewch yn siŵr eich bod yn ychwanegu stamp. Byddwn yn dychwelyd eich tystysgrif atoch.
LLWYBR PAPUR: PEIDIWCH AG ANGHOFIO ANFON EICH TYSTYSGRIF ATOM, ni allwn wirio bod gwiriad DBS ar gyfer eich rôl oni bai eich bod yn cwblhau'r cam olaf hwn.

## Rhan 4: Hysbysu'r eglwys leol:

Bydd Y Panel yn hysbysu'r eglwys leol pan fydd pob gwiriad DBS wedi'i gwblhau.
Dylai'r eglwys gadw cofnod cyfrinachol o statws DBS eu gwirfoddolwyr fel y gallant sicrhau bod adnewyddiad pedwar blynedd yn cael eu cwblhau'n brydlon a bod pob gwirfoddolwr newydd yn cwblhau'r broses.

Panel Diogelu Cydenwadol
Interdenominational Safeguarding Panel
1 Vale Parc, Stad ddiwydiannol Colomendy, Ddinbych, LL16 5TA
☎ 01745 817584 /07957510346
post@panel.cymru https://panel.cymru